Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad

Hydref 2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG36165 ISBN digidol 978 1 78964 293 3

# Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: diweddariad 2018

## Cyflwyniad

Ym mis Hydref 2017, darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar ein rhaglen fesul cam o ddiwygiadau i drethi lleol a fframwaith cyllid ehangach llywodraeth leol[1]. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu hynt y gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'n cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion a'r nodau sydd wedi'u datgan yn ein Strategaeth Genedlaethol, Ffyniant i Bawb.

Ein blaenoriaethau wrth ddatblygu system o drethu lleol sy'n diwallu anghenion y dyfodol yw tegwch i ddinasyddion a busnesau gan gynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol. Nodwedd allweddol o'r gwaith hwn yw cryfhau gwytnwch ariannol awdurdodau lleol, fel y maent mewn sefyllfa well i ateb yr heriau ariannol gwasanaethau lleol yn eu hwynebu, gan gynnwys y rheini a achosir gan y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi ymgynghori, a byddwn yn dal ati i ymgynghori, ar gynigion penodol fel maent yn cael eu datblygu ond rydym yn croesawu pob sylw a chyfraniad at y drafodaeth wrth iddi fynd rhagddi.

## Cefndir a rhaglen waith

1. Mae *Symud Cymru Ymlaen* a *Ffyniant i Bawb* yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gyfer y tymor hwn a thu hwnt. Dim ond gyda chymorth cyrff cyhoeddus eraill y bydd modd cyflawni llawer o'r rhain. Mae Gweinidogion Cymru'n buddsoddi swyddogaethau mewn awdurdodau lleol i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol, ac mae gan awdurdodau lleol ryddid i bennu blaenoriaethau ynglŷn â'r gwasanaethau a fydd o fudd i gymunedau yn eu barn hwy.

2. Ceir corff sylweddol o ymchwil i sut ddylid cyllido gwasanaethau lleol yng Nghymru, yng ngweddill y DU ac yn rhyngwladol[2,3,4]. Mae llawer o'r trafod wedi canolbwyntio ar drethu lleol fel ffordd o godi refeniw ond hefyd fel cyfrwng i gyflawni amcanion economaidd a chymdeithasol amrywiol. Mae polisïau treth gyngor ac ardrethi annomestig sy'n esblygu'n rhan greiddiol o ddiwygio fesul cam ar y fframwaith cyllido ehangach ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

[1] Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Diweddariad, Hydref 2017. https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/171010-finance-reform-update-cy.pdf

[2] Systems of Local Government Finance, Local Taxation and Resource Allocation. (Bennett, Allen a Grace, 2016). http://gov.wales/statistics-and-research/evidence-review-systems-local-government-finance-local-taxation-resources-allocation/?lang=en

[3] Comisiwn yr Alban ar Ddiwygio Trethi Lleol, Rhagfyr 2015. http://localtaxcommission.scot/download-our-final-report/

[4] Y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru, Mawrth 2016. http://www.cipfa.org/partners/independent-commission-on-local-government-finance-wales/final-report

3. Mae ein *Hadroddiad ar Bolisi Trethi*[5] (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft ar 2 Hydref) yn nodi'r cynnydd o ran ystyried polisi trethi yng Nghymru mewn ffordd strategol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i refeniw trethi lleol gael ei ddefnyddio i gyllido gwasanaethau lleol. Mae hyn yn creu rhywfaint o gyfleoedd i ystyried sut dylai trethi lleol eistedd ochr yn ochr â threthi datganoledig newydd a threthi'r DU y bydd pobl, sefydliadau a busnesau yn parhau i'w talu. Os byddwn yn gwneud newidiadau i bolisi trethi lleol, byddwn yn eu gwneud yn unol â'n hegwyddorion trethi, sef y dylai trethi Cymru wneud y canlynol:

- Codi refeniw i gyllido gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl;
- Cyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru, yn benodol, cefnogi swyddi a thwf;
- Bod yn glir, sefydlog a syml;
- Cael eu datblygu drwy gydweithredu a chynnwys;
- Cyfrannu'n uniongyrchol at nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru sy'n fwy cyfartal.

4. Mae ffigur un yn amlinellu amcanion rhaglen Llywodraeth Cymru o ddiwygiadau a'r amserlenni disgwyliedig sy'n gysylltiedig â phob elfen. Gan fod hon yn rhaglen waith sy'n esblygu, mae rhai eitemau wedi cael eu diwygio ers ein diweddariad yn 2017 ac mae rhai eitemau newydd wedi cael eu hychwanegu lle mae materion a chyfleoedd wedi codi. Mae gweddill y ddogfen hon yn darparu rhagor o fanylion am bob un o'r meysydd hyn, wedi'u grwpio yn y tymor byr, canolig a hir.

5. Mae'r rhaglen waith yn gofyn am fewnbwn gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Cafodd ein Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol sy'n cael ei arwain gan arbenigwyr ei sefydlu yn 2016 er mwyn profi'r posibiliadau mewn ffordd ymarferol a chymhwysol. Mae Is Grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru'n darparu'r prif fforwm i aelodau llywodraeth leol a phartneriaid y sector cyhoeddus gymryd rhan yn y drafodaeth ehangach. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd ar faterion manwl gyda Grŵp Refeniw a Budd-daliadau Cymru a'r Is Grŵp Dosbarthu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr proffesiynol allweddol o bob un o'r 22 awdurdod lleol a llywodraeth leol yn ehangach ar gynigion perthnasol i'r system gyllid, yn benodol, eu rôl fel gwarcheidwaid y defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

[5] Adroddiad Polisi Treth Llywodraeth Cymru 2018, Hydref 2018.
https://gov.wales/docs/caecd/publications/181003-welsh-tax-policy-report-cy.pdf

**Ffigur un: Amcanion ar gyfer trethi lleol ac amserlen ddangosol**

### Trethi lleol teg, cynyddol ac wedi'u targedu'n well

- cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach sy'n cefnogi blaenoriaethau LlC (cyflawnwyd fis Ebrill 2018 ac yn datblygu'n barhaus)
- biliau ardrethi annomestig is drwy newid yr uwchraddio blynyddol o RPI i CPI (cyflawnwyd fis Ebrill 2018)
- ymgynghori ar newidiadau i'r rhyddhad ardrethi ar gyfer ysgolion annibynnol ac ysbytai (2019)
- treth gyngor deg a chynyddol (gwelliannau cychwynnol yn 2018)
- gwella cysondeb yn y driniaeth i unigolion sy'n gadael gofal a phobl â Nam Meddyliol Difrifol o 2019 ymlaen)
- gwell Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan ystyried diwygiadau lles y DU (o 2019 ymlaen)
- ***edrych ar*** wahanol ddulliau o weithredu gyda threthi lleol, ee. newidiadau sylfaenol i fandiau treth gyngor, trethi gwerth tir, trethi incwm lleol (o 2018 ymlaen)

### Gweinyddu trethi lleol yn effeithiol a chymesur

- ailbrisio a phontio ardrethi annomestig yn 2017 (cyflawnwyd)
- gwella'r rheolaeth a'r orfodaeth yng nghyswllt ôl-ddyledion treth gyngor (o 2017 ymlaen)
- ailystyried carchariad fel cosb am dreth gyngor (o 2018 ymlaen)
- ailbrisiad ardrethi annomestig nesaf ar gyfer 2021 (o 2018 ymlaen)
- mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig (o 2018 ymlaen)
- diwygio apeliadau ardrethi annomestig (o 2018 ymlaen)
- gwella rhannu gwybodaeth a gallu (cyflawnwyd yn rhannol a pharhaus)
- ***edrych ar*** ailosodiadau prisio eiddo amlach ac wedi'u moderneiddio (o 2017 ymlaen)

### Cefnogi'r fframwaith cyllid llywodraeth leol ehangach

- cefnogaeth i fargeinion dinesig a thwf (o 2018 ymlaen)
- darparu hyblygrwydd cyllid cyfalaf newydd (cyflawnwyd)
- datblygu'r fformiwla setliad fel ymateb i batrymau gwario sy'n newid (blynyddol) a newidiadau treth lleol (o 2019 ymlaen)
- datblygu fframwaith cyllido i alluogi diwygio a thrawsnewid gwasanaethau (drwy'r Bil Llywodraeth Leol)
- ***edrych ar*** y cydbwysedd o ran cyllid rhwng cyllid a godir yn lleol a'r cyllid a ddarperir yn ganolog (o 2019 ymlaen)

### Llywodraethu ariannol cadarn ac atebolrwydd lleol cryfach

- cefnogi rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn amgylchedd sy'n newid (parhaus)
- cynnwys dinasyddion mewn penderfyniadau am flaenoriaethau gwariant (parhaus)
- datblygu fframwaith cyfrifo ac archwilio (o 2019 ymlaen)
- gwelliant parhaus i lywodraethu ariannol o ganlyniad i'r newidiadau eraill a ddisgrifir

## Diwygiadau tymor byr

6. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sydd oddi mewn i bwerau presennol Gweinidogion Cymru ac sydd wedi, neu sydd yn, cael eu gweithredu'n gymharol gyflym.

### Treth gyngor deg a chynyddol

7. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i **weithio gyda llywodraeth leol i adolygu treth gyngor i'w gwneud yn decach**. Roedd ein diweddariad ym mis Hydref 2017 yn amlinellu'r gwaith a wnaed gennym i ddiffinio beth rydym yn ei olygu oddi wrth degwch, beth yw ein hamcanion a'r amrywiaeth o welliannau posibl. Rydym wedi edrych ar nifer o opsiynau i wella cynnydd, gan gynnwys newidiadau i berthynoledd y trethi a godir rhwng y naw band treth gyngor, y sail ar gyfer prisio eiddo, ffyrdd o wella cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ffyrdd o wella'r dull o drin aelwydydd sydd mewn dyled neu rai sy'n llai abl i gyfrannu.

8. Roedd un nodwedd allweddol yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym yn hydref 2017 yn awgrymu nad yw llawer o aelwydydd yn ymwybodol o'r ffurfiau amrywiol ar gefnogaeth y mae ganddynt hawl iddynt, neu nid ydynt yn derbyn y gefnogaeth am nifer o resymau cymhleth. Wrth edrych ar gyfradd y bobl sy'n hawlio budd-daliadau lles craidd, gwelsom amrywiad sylweddol o rhwng 56% ac 84%[6] ar gyfer y DU yn gyffredinol. Roedd ein hasesiad o gymhwysedd yn awgrymu y gallai'r ganran sy'n defnyddio ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fod rhwng 55% a 65%[7], ond bydd hyn yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall.

9. Er ei bod yn anodd mesur faint o bobl sy'n defnyddio ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, rydym yn gwybod bod nifer yr aelwydydd sy'n derbyn cefnogaeth wedi gostwng ym mhob awdurdod lleol ers 2013-14 ond nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu bod cyllid yr aelwydydd hyn wedi gwella'n sylweddol. Gyda gweinyddu Budd-dal Tai yn benodol yn cael ei symud o reolaeth yr awdurdodau lleol wrth iddo newid yn Gredyd Cynhwysol, mae disgwyl i'r ceisiadau deuol i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor leihau ymhellach.

---

[6] Amcangyfrifon yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r niferoedd sy'n hawlio (2015-16): Lwfans Ceiswyr Gwaith 56%, Credyd Pensiwn 61%, Budd-dal Tai 77%, Lwfans Cymhorthdal Incwm / Cyflogaeth a Chymorth 84% https://www.gov.uk/government/statistics/income-related-benefits-estimates-of-take-up-financial-year-201516

[7] Dadansoddiad Arolwg Adnoddau Teulu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ymgyrch ymwybyddiaeth

10. Fel ymateb i dystiolaeth o gyfraddau hawlio isel o bosibl am gymorth gyda threth gyngor, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol wrth i aelwydydd dderbyn eu biliau treth gyngor blynyddol ym mis Mawrth 2018. Nod yr ymgyrch oedd hybu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a rhoi cyngor a chefnogaeth i filoedd o aelwydydd ledled Cymru. Mae gweithgarwch yr ymgyrch yn cynnwys y canlynol:

- Cyngor newydd a haws ei ddeall ar wefan Llywodraeth Cymru, a dderbyniodd fwy nag 20,000 o ymweliadau unigol rhwng misoedd Mawrth a Medi 2018;
- 150,000 o slipiau yn rhoi cyngor am gefnogaeth â'r dreth gyngor a rheoli dyledion yn cael eu cynnwys gyda hysbysiadau atgoffa ar gyfer aelwydydd oedd wedi methu taliad rhwng misoedd Mai a Hydref 2018;
- 10,000 o bosteri a thaflenni wedi cael eu hanfon i awdurdodau lleol, canolfannau cymunedol, canolfannau cynghori, cymdeithasau tai, sefydliadau'r trydydd sector ac aelodau etholedig;
- Hysbysebion wedi'u targedu ar gyfryngau cymdeithasol;
- Gweithio gyda gwasanaethau cynghori fel MoneySavingExpert.com a Chyngor ar Bopeth i wella'r canllawiau ac i helpu i hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael;
- Sefydlu grŵp data gydag awdurdodau lleol i ddefnyddio'r wybodaeth i fynd ati i adnabod aelwydydd cymwys nad ydynt yn derbyn cymorth.

Cefnogaeth i bobl â nam meddyliol

11. Roedd ymchwil gan Money Saving Expert ym mis Medi 2017[8] yn tynnu sylw at bryderon am roi cyngor anghyson ar dreth gyngor ledled y DU i bobl â nam meddyliol. Yn seiliedig ar ein hymgyrch ymwybyddiaeth fwy cyffredinol, buom yn gweithio gyda Money Saving Expert i ganolbwyntio ar y mater hwn yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru, Money Saving Expert ac awdurdodau lleol wedi cydweithio i ddatblygu cyngor clir a chyson a chanllaw[9] i'w ddefnyddio fel adnodd i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau treth gyngor penodol ar gyfer pobl sydd â nam meddyliol difrifol neu sy'n byw gyda rhywun â nam meddyliol difrifol

12. Lansiwyd ymgyrch ar y cyd ar 26 Medi 2018 gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Money Saving Expert, a gafodd sylw ar y cyfryngau cenedlaethol ac yn hysbysiadau e-bost MSE, sy'n cyrraedd hyd at naw miliwn o bobl yn rheolaidd.

[8] Money Saving Expert "The Disregarded Discount", Medi 2017. https://images6.moneysavingexpert.com/images/documents/SMI_report-2017_final-interactive.pdf
[9] Allech chi dalu llai o dreth gyngor? https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/disgownt-a-gostyngiad-treth-gyngor-taflen.pdf

Mae miloedd o gopïau o'r canllaw wedi'u dosbarthu i ganolfannau cyswllt awdurdodau lleol, canolfannau Cyngor Ar Bopeth ac elusennau i gynorthwyo ymarferwyr wrth iddynt ddelio ag achosion pobl â nam difrifol ar y meddwl. Bydd cam nesaf yr ymgyrch yn cynnwys Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol ac MSE i ddatblygu ffurflen gais gyson ar gyfer y gostyngiad i bobl â nam difrifol ar y meddwl. Hefyd byddwn yn adolygu'r gweithdrefnau mewn cymunedau lleol i sicrhau mynediad at ffurflenni ac i adolygu anghenion hyfforddi ar gyfer ymarferwyr, yn seiliedig ar arbenigedd sefydliadau fel Age Cymru.

<u>Cymorth i unigolion sy'n gadael gofal</u>

13. Mae unigolion sy'n gadael gofal yn bobl ifanc a oedd yng ngofal awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers bod yn 14 oed. Gall unigolion sy'n gadael gofal fod ymhlith y bobl ifanc mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, heb rwydwaith cefnogi teuluol yn ystod cyfnodau pwysig yn eu bywyd, fel symud i'w cartref cyntaf ar ôl gadael gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau lleol i eithrio unigolion sy'n gadael gofal rhag talu treth gyngor nes eu bod yn 25 oed.

14. Mae nifer yr unigolion sy'n gadael gofal sydd angen eu heithrio o dalu treth gyngor yn isel, gan fod llawer ohonynt eisoes yn derbyn cymorth drwy gyfryngau eraill fel Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a'r gostyngiad person sengl. Nid ydym yn credu y dylid cael unrhyw rwystrau i atal awdurdodau lleol rhag gweithredu'r disgresiwn hwn. Wrth gyhoeddi'r ddogfen hon, mae naw awdurdod yng Nghymru'n cynnig eithriad gwirfoddol i unigolion sy'n gadael gofal. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n edrych ar sut gall yr arfer hwn gael ei fabwysiadu ledled Cymru i sicrhau triniaeth gyson.

15. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar greu eithriad gorfodol i sicrhau bod pawb sy'n gadael gofal ledled Cymru'n cael eu trin yn gyfartal yng nghyswllt treth gyngor ac yn cael eu heithrio rhag talu'r dreth gyngor pan fyddant o dan 25 oed. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried pa ddeddfwriaeth sy'n ofynnol er mwyn creu eithriad gorfodol o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

**Ardrethi annomestig: cefnogi busnesau i ffynnu**

<u>Newidiadau i'r uwchraddio blynyddol ar gyfer ardrethi annomestig</u>

16. Mae ardrethi annomestig yn codi mwy nag £1bn bob blwyddyn mewn taliadau gan berchnogion a meddianwyr eiddo annomestig fel cyfraniad at gost gwasanaethau llywodraeth leol a'r heddlu. Ceir oddeutu 110,000 o drethdalwyr yng Nghymru a chaiff eu biliau eu cyfrif gan ddefnyddio dau newidyn - 'gwerth

trethadwy' pob eiddo, a bennir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n gorff annibynnol, a'r 'lluosogydd' a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, sy'n adlewyrchu mesurau chwyddiant swyddogol.

17. Fis Rhagfyr 2017, penderfynodd Llywodraeth Cymru newid y gweithdrefnau uwchraddio blynyddol i adlewyrchu symudiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)[10]. Mae'r newid hwn yn y dull o weithredu'n golygu bod perchnogion eiddo domestig wedi derbyn biliau ardrethi is na'r disgwyl ar gyfer 2018-19 ac y byddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Mae'r arbediad blynyddol i drethdalwyr ledled Cymru oddeutu £9m ac yn cael ei gyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r penderfyniad hwn yn dangos ein hymrwymiad i leihau'r baich ar drethdalwyr gan sicrhau hefyd bod cyllid hanfodol i wasanaethau lleol yn parhau'n gynaliadwy.

Cefnogaeth wedi'i thargedu'n well i fusnesau bach

18. Mae *Symud Cymru Ymlaen* yn cynnwys ymrwymiad i **sicrhau talu llai o dreth drwy gefnogi busnesau bach gyda'u biliau ardrethi annomestig**. Amlinellodd y diweddariad a gyhoeddwyd gennym ym mis Hydref 2017 y camau cychwynnol a gymerwyd gennym i roi ein cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach dros dro ar waith yn barhaol o fis Ebrill 2017 ymlaen ac edrych ar welliannau pellach ar gyfer 2018 a thu hwnt.

19. Tynnodd ein hadolygiad o'r cynllun sylw at nodweddion ychwanegol a allai helpu i feithrin yr amodau gofynnol i sicrhau bod busnesau a chymunedau'n parhau i ffynnu. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori[11], cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid gynigion[12,13] newydd ar gyfer cynllun gwell o fis Ebrill 2018. Roedd y nodweddion newydd yn cynnwys y canlynol:

- Rhyddhad uwch ar gyfer eiddo gofal plant i gefnogi ein hymrwymiad blaengar i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i rieni mewn oedran gweithio sydd â phlant tair a phedair oed;
- Cefnogaeth wedi'i thargedu i brosiectau ynni cymunedol;
- Estyniad ar gynllun rhyddhad ardrethi'r stryd fawr ar gyfer 2018-19;

[10] Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, Rhagfyr 2017. https://gov.wales/newsroom/localgovernment/2017/171213-small-business-rates/?skip=1&lang=cy
[11] Sicrhau gostyngiad treth i fusnesau bach: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach newydd ar gyfer Cymru, Gorffennaf 2017. https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/consultation_doc-cy.pdf
[12] Datganiad ysgrifenedig y Cabinet, Rhagfyr 2017. https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/smallbusinesratesrelief/?skip=1&lang=cy
[13] Crynodeb o ymatebion, Rhagfyr 2017. https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-02/171213-tax-cut-responses-cy.pdf

- £1.3m ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2018-19 i ddarparu rhyddhad dewisol ar gyfer busnesau lleol a threthdalwyr eraill a fyddai'n elwa o gymorth a benderfynir yn lleol.

20. Cyllidwyd y gwelliannau hyn drwy gyfyngu ar nifer yr eiddo a fydd yn gymwys i gael rhyddhad i ddau eiddo i bob perchennog busnes ym mhob awdurdod lleol. Mae'r polisi hwn yn rhyddhau amcangyfrif o £7m y flwyddyn drwy atal busnesau mwy a chadwyni cenedlaethol rhag elwa o gynllun sydd wedi'i greu i helpu busnesau bach. Wrth i ni werthuso llwyddiant y gwelliannau a ddarparwyd ym mis Ebrill 2018, rydym yn parhau i edrych ar syniadau sydd angen mwy o amser i'w datblygu. Ceir mwy o wybodaeth am yr uchelgeisiau ehangach hyn ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn yr adran ar ddiwygiadau tymor canolig.

21. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori yn ystod y 12 mis nesaf ar gynigion i newid cymhwystra ysgolion annibynnol ac ysbytai preifat i dderbyn rhyddhad ardrethi, gan eu gwneud yn gyfartal ag ysgolion a gyllidir gan y wladwriaeth ac ysbytai'r GIG, sy'n atebol i dalu ardrethi annomestig.

**Gweinyddu trethi lleol yn effeithiol a chymesur**

<u>Rheoli a gorfodi dyledion treth gyngor</u>

22. Mae ein hymrwymiad i wella tegwch hefyd yn ymestyn i adolygu'r gweithdrefnau a ddefnyddir i gasglu a rheoli'r dreth gyngor. Cynhaliwyd ymchwil gennym yn hydref 2017 i ystyried beth ellir ei wneud i wella'r gwaith o gasglu a rheoli ôl-ddyledion[14]. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dull cytbwys o weithredu sy'n rhoi lle canolog i ddinasyddion wrth orfodi'r dreth gyngor, gan sicrhau bod gan awdurdodau lleol bolisi clir ar gyfer sut byddant yn trin aelwydydd agored i niwed a lleihau'r defnydd o feili. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ffurfio partneriaeth gyda'r 22 awdurdod lleol i ddatblygu protocol – *Protocol i Gymru ar y Dreth Gyngor: Arferion Da wrth Gasglu'r Dreth Gyngor* - ac rydym yn gobeithio y bydd yr holl randdeiliaid yn ymrwymo iddo er mwyn gwella cysondeb o ran sut rydym yn trin aelwydydd ag ôl-ddyledion neu y mae perygl iddynt fod felly.

23. Mae llawer o waith i'w wneud eto cyn y gallwn fod yn sicr bod sefydliadau'n gwneud popeth o fewn eu gallu i atal dyledion treth gyngor rhag cynyddu. Cred Llywodraeth Cymru'n gryf nad yw cael anhawster dianc rhag dyled sifil sy'n

[14] Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth: 'Ymchwil i ddulliau awdurdodau lleol o ymdrin ag adennill dyledion y dreth gyngor yng Nghymru', cyhoeddwyd 28 Medi 2017. https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170928-local-authorities-approaches-council-tax-debt-recovery-cy.pdf

cynyddu'n drosedd. Buom yn ymgynghori ar gynnig yn y dyfodol i gael gwared ar garchariad fel cosb am beidio â thalu'r dreth gyngor[15]. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ei phenderfyniad am y ffordd ymlaen yn fuan.

Gwella rhannu gwybodaeth a gallu data

24. Yn ystod 2018 rydym wedi adolygu a gwella ein trefniadau rhannu data gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn data prisio manylach ac amlach i gefnogi datblygu polisïau treth gyngor ac ardrethi annomestig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r rhannu gwybodaeth presennol rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth hanfodol am gost ac effeithiolrwydd gostyngiadau ac eithriadau. Gan ddefnyddio'r pwerau Deddf Menter 2016, sefydlwyd porth rhannu data rhwng yr Asiantaeth a'r awdurdodau lleol i helpu'r awdurdodau â'u gwaith o weinyddu ardrethi annomestig. Byddwn yn parhau i wella ein gallu data yn y dyfodol i gefnogi polisïau sydd wedi'u seilio'n well ar wybodaeth.

Rhagfynegi refeniw ardrethi annomestig

25. Mae gweinyddu trethi lleol yn effeithiol hefyd yn cynnwys gallu rhagfynegi refeniw ardrethi annomestig fel ein bod yn gallu rheoli amrywiadau yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol. Cyhoeddodd Ysgol Fusnes Bangor ei hasesiad o'r rhagolygon ar gyfer trethi Cymru ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft amlinellol[16]. Mae ei hadroddiad yn cynnwys rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer y 'swm i'w ddosbarthu' o ardrethi annomestig ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2022-23. Daeth Ysgol Fusnes Bangor i'r casgliad bod rhagfynegi ardrethi annomestig yn broses wedi'i sefydlu sydd wedi cael ei gweithredu am flynyddoedd lawer gan staff gwybodus a phrofiadol ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ychydig o wahaniaeth sydd wedi bod rhwng y ffigurau gwirioneddol a'r rhagolygon, gan awgrymu bod hon yn weithdrefn sy'n cael ei deall yn dda.

26. Rydym yn gweithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio i benderfynu pa wybodaeth apelio a allai fod ar gael i wella ein rhagolygon.

**Hyblygrwydd cyllido i lywodraeth leol**

27. Mae'r fframwaith cyllid gwerth biliynau o bunnoedd sy'n sail i ddarparu gwasanaethau lleol yn system gymhleth a rhyng-gysylltiedig o wahanol elfennau. Ym mis Ebrill 2018 aethom ati i ymestyn hyblygrwydd llywodraeth leol

[15] Dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor, Mehefin 2018. https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-06/180608-dileur-gosb-o-garchar-am-beidio-thalu-treth-gyngor.pdf
[16] *Gwaith craffu a sicrhau annibynnol ar ragolygon trethi datganoledig i Gymru*, Prifysgol Bangor https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/prifysgol-bangor-2018_0.pdf

i ddefnyddio derbynebau cyfalaf i gyllido buddsoddiad mewn gweithgareddau trawsnewid am dair blynedd bellach hyd at 2021. Hefyd rydym wedi cyflwyno newidiadau i'r drefn cyllid a chyfrifo cyfalaf drwy lacio’r cyfyngiadau cysylltiedig â thrafodion cyfalaf benthyg, trafodion cyfalaf cyfranddaliadau penodol a bondiau. Mae hyn yn gosod awdurdodau lleol Cymru’n gyfartal ag awdurdodau lleol Lloegr. Mae i benderfyniadau gwariant cyfalaf ganlyniadau refeniw sydd â goblygiadau i gyllid arall, gan gynnwys swm y refeniw a godir o drethi lleol.

28. Rydym hefyd wedi dechrau archwilio’r posibilrwydd o ddefnyddio dull rhannu enillion ar gyfer trethi lleol, lle gallai’r awdurdodau lleol gadw rhan o’r refeniw ychwanegol y byddent yn ei godi drwy eu hymdrechion eu hunain. Mae hyn yn golygu edrych ar y potensial ar gyfer rhyw fath o gadw ardrethi annomestig ar sail ranbarthol mewn cysylltiad â’r bargeinion dinesig presennol – ac, o bosibl, â’r bargeinion twf yn y dyfodol – lle byddai camau gweithredu’r awdurdodau lleol ar y cyd yn arwain at dwf net mewn refeniw ardrethi. Mae’r awdurdodau lleol hefyd wedi cael eu gwahodd i awgrymu meysydd eraill lle byddai eu hymdrechion i wella’r gwaith o gasglu trethi lleol yn arwain at well canlyniadau. Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith i fynd i’r afael â thwyll ac osgoi talu ardrethi – pwnc yr ymdrinnir ag ef yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

## Diwygiadau tymor canolig

30. Mae'r cam hwn yn cynnwys y newidiadau i gyflawni ein hamcanion a’n hymrwymiadau sydd angen cyfnod hwy o amser ac sydd angen darpariaeth ddeddfwriaethol newydd o bosibl. Bydd gweithredu newidiadau o’r fath yn ymestyn dros fwy nag un tymor Cynulliad.

**Treth gyngor deg a chynyddol**

<u>Asesu effaith diwygio lles</u>

31. Yn ychwanegol at godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth i aelwydydd gyda bodloni eu hatebolrwydd treth gyngor, rydym yn cynnal asesiad helaeth o effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar gymhwysedd aelwydydd am Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor. Nid yw’n iawn bod penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun y DU am les yn gallu cael effaith ar drethi lleol yng Nghymru; maes cyfrifoldeb sydd wedi’i ddatganoli ers degawdau. Ond eto, oherwydd y ffordd y mae agweddau ar y polisi treth gyngor yn adlewyrchu meini prawf cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau’r DU, rydym yn dechrau gweld effaith niweidiol ledled Cymru wrth i Gredyd Cynhwysol (CC) gael ei ehangu.

32. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu asesiad manwl o effaith y Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor. Rydym yn amau bod yr effaith yn cael ei theimlo mewn sawl ffordd:
    - Drwy leihau’n uniongyrchol nifer yr achosion a gaiff eu pasbortio’n awtomatig, sy’n ei gwneud yn anoddach cysylltu ag aelwydydd ac yn gwneud y broses ymgeisio yn fwy cymhleth i aelwydydd sy’n gymwys;
    - Drwy golli gwybodaeth sy’n cael ei dal gan awdurdodau lleol wrth i weinyddu Budd-dal Tai gael ei symud o reolaeth yr awdurdodau lleol;
    - Y newid i CC yn cael effaith negyddol ar aelwydydd, a allai fod yn achosi problemau dyledion neu’n gwneud problemau o’r fath yn waeth;
    - Gormod o faich ar wasanaethau cynghori oherwydd achosion CC a dim â’r dreth gyngor.

33. Bydd yr asesiad manwl yn seiliedig ar ddata sy’n cael eu dal gan awdurdodau lleol a chyrff cysylltiedig i ganfod a thargedu aelwydydd sy’n colli manteision y gefnogaeth y dylent fod yn ei derbyn neu’r oeddent yn ei derbyn yn flaenorol. Gan mai asesiad ar lefel aelwyd yw hwn, bydd yr ymchwil yn rhychwantu blwyddyn, sy’n golygu y gallwn gynnwys sawl cam yn yr ehangu ar CC i rannau newydd o Gymru. Byddwn yn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r ymarfer hwn yn nes ymlaen yn 2019.

Ddatblygu am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

34. Mae Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn flaenoriaeth ar gyfer y llywodraeth hon gan ei fod yn rhoi cymorth uniongyrchol i aelwydydd agored i niwed ac incwm isel. Byddwn yn parhau i gynnal hawliau llawn i’r cynllun yn 2019-20, er gwaethaf gostyngiad yn y cyllid a drosglwyddwyd i Gymru gan Lywodraeth y DU pan ddiddymodd y Budd-dal Treth Gyngor yn 2013. Mae hyn yn sicrhau bod bron i 300,000 o aelwydydd yng Nghymru’n cael help gyda’u treth gyngor. O blith y rhain, nid yw 220,000 o aelwydydd yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl.

35. Bydd canfyddiadau'r ymchwil i effaith Credyd Cynhwysol (CC) yn sail i ddatblygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2020-21 ymlaen, i sicrhau triniaeth gyfartal i aelwydydd CC a’r rhai nad ydynt yn derbyn CC. Hefyd byddwn yn defnyddio’r canfyddiadau i ystyried a oes angen ailfeddwl yn sylfaenol am y cynllun yn y tymor canolig i liniaru effaith y diwygiad lles ac i wneud treth gyngor yn decach a mwy cynyddol. Mae’r posibiliadau’n cynnwys diwygio’r ‘tapr’ (cyfradd y cyfraniadau at y dreth gyngor ar gyfer y rhai sy’n cael cymorth rhannol); diwygio’r prawf modd; ystyried trothwyon incwm a’r dull o drin rhai categorïau penodol o aelwydydd yn y cynllun, fel didyniadau ar gyfer aelwydydd heb ddibynyddion.

36. Fel rhan o’n harchwiliadau yn y tymor hwy (a amlinellir ym mharagraffau 61-77), byddwn yn ystyried a fydd unrhyw ddull newydd o weithredu gyda threthi lleol yn y dyfodol yn gofyn am gynllun cefnogi ar wahân neu a allai’r gefnogaeth gael ei hintegreiddio’n llawnach yng nghynllun y dreth.

Prisio eiddo treth gyngor

37. Mae eiddo y mae’n rhaid talu treth gyngor arno’n cael ei osod mewn un allan o naw band treth gyngor yn seiliedig ar werth yr eiddo a asesir yn annibynnol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Y pwrpas yw galluogi system lle gall y gwahanol fandiau ddenu atebolrwydd treth llai i fwy. Seilir y bandiau treth gyngor yng Nghymru ar werthoedd ar 1 Ebrill 2003. Ar ôl cynnal ymarfer ailbrisio ers ei sefydlu, mae Cymru mewn gwell sefyllfa na Lloegr a’r Alban o ran codi treth gyngor ar sail gwerth yr eiddo yn 1991.

38. Byddwn yn gwerthuso llwyddiant ein mesurau tymor byrrach i gyflawni ein hymrwymiad i wneud y dreth gyngor yn decach, fel yr ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol, gwelliannau i orfodi dyledion, lliniaru effaith CC a gwell triniaeth i unigolion sy’n gadael gofal a phobl sydd â nam difrifol ar y meddwl. Os ydym yn teimlo bod mwy i’w wneud i gyflawni ein hymrwymiad, ceir rhagor o bosibiliadau i’w hystyried yn y tymor canolig. Gallai hyn gynnwys ailystyried perthynoledd y dreth a godir yn y naw band treth gyngor.

39. Heb ymarfer ailbrisio gyda'r 1.4 miliwn o eiddo domestig yng Nghymru, rydym wedi ein cyfyngu yn ein gallu i wneud newidiadau sylfaenol a fyddai'n helpu i wneud y system yn decach, er enghraifft ychwanegu bandiau i wella cynnydd a moderneiddio'r trothwyon i weddu i amodau presennol y farchnad. Byddwn yn comisiynu asesiad o effaith debygol ymarfer ailbrisio ar sylfaen dreth domestig Cymru pe cynhelid un. Bydd hyn yn cynnwys ymarfer ystadegol annibynnol yn ystyried yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am werth y farchnad, trafodion a newidiadau ffisegol i eiddo. Bydd y canfyddiadau ar gael yn nes ymlaen yn 2019.

40. Mae ymarferion ailbrisio ar gyfer treth gyngor yn ddrud a heriol i'w cynnal. Felly, yn ychwanegol at hyn, ac o ystyried y datblygiadau mewn technoleg a'r data sydd ar gael ers 2003, rydym yn edrych ar ymarferoldeb y dulliau wedi'u moderneiddio o brisio a allai sicrhau bod modd diweddaru'r sylfaen dreth gyngor yn amlach yn y dyfodol mewn ffordd fwy cost-effeithlon a phrydlon.

**Cefnogi busnesau i ffynnu**

Rhyddhad ardrethi tu hwnt i 2018

41. Bwriad y gwelliannau a wnaed gennym i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach yn 2017 a 2018 oedd gwella'r cynllun mewn cyfnod byr o amser, fodd bynnag, mae gennym amcanion ehangach ar gyfer sut gellid gweithredu'r cynllun yn y dyfodol. Ym mis Medi[17], cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a gofal Cymdeithasol y bydd rhyddhad ardrethi o 100% ar gael ar gyfer pob eiddo gofal plant o fis Ebrill 2019 ymlaen, heb ystyried maint yr eiddo. Bydd y cynllun yn darparu £7.5m o gefnogaeth ychwanegol i bob darparwr gofal plant dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r penderfyniad yn cefnogi ein haddewid blaengar i gynnig 30 awr o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant teirblwydd a phedair blwydd oed - cynllun sydd wrthi'n cael ei roi ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd rhyddhad ardrethi yn cefnogi'r sector gofal plant wrth iddo ddatblygu'r capasiti i ddarparu'r cynnig, gan greu swyddi a llefydd gofal plant newydd.

Rhyddhad cyfyngedig gan amser

42. Un cwestiwn a holwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017 oedd a ddylai busnesau bach dderbyn rhyddhad yn barhaol, neu a ddylid rhoi'r rhyddhad dros amser cyfyngedig o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, gellid rhoi rhyddhad i fusnesau newydd wrth i drethdalwyr newydd sefydlu a datblygu, gan dynnu'r cymorth yn ôl yn raddol wedyn wrth i fusnesau allu cynnal eu hunain. Roedd

[17] 100% o ryddhad ardrethi i ddarparwyr gofal plant yng Nghymru https://gov.wales/newsroom/people-and-communities/2018/100-per-cent-rates-relief-for-childcare-providers-in-wales/?skip=1&lang=cy

barn trethdalwyr a chynrychiolwyr diwydiant yn awgrymu bod hon yn drafodaeth fwy sylfaenol oedd angen ystyriaeth ac ymgynghoriad penodol gyda sectorau yn y dyfodol. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i elfen â chyfyngiad amser fel rhan o ryddhad ardrethi ond mynegodd rhai bryderon didwyll am unrhyw fframwaith newydd yn creu cyfleoedd ar gyfer ymddygiad twyllodrus. Mae Llywodraeth Cymru'n casglu tystiolaeth am fanteision ac anfanteision dull o'r fath o weithredu a bydd yn cynnal ymgynghoriad pellach maes o law.

Cyd-fynd â'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*

43. Mae rhoi rhyddhad ardrethi'n fuddsoddiad ariannol o bwys i Lywodraeth Cymru wrth inni gefnogi busnesau bach – rydym yn darparu mwy na £200 miliwn o gymorth i dalwyr ardrethi drwy Gymru bob blwyddyn. Mae'n hanfodol ein bod yn targedu'r buddsoddiad hwn i gefnogi blaenoriaethau sydd o fudd cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol i Gymru. Mae *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* Llywodraeth Cymru[18] yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud hynny ac efallai y bydd cyfleoedd i sicrhau bod y rhyddhad ardrethi'n cefnogi uchelgeisiau ehangach y cynllun. Mae'r Contract Economaidd yn gofyn i fusnesau sydd eisiau cefnogaeth ariannol yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ddangos y canlynol:

- Potensial am dwf;
- Gwaith teg (fel y diffinnir gan y Comisiwn Gwaith Teg);
- Hybu iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sgiliau a dysgu; a
- Cynnydd mewn lleihau ôl troed carbon.

44. Er bod cefnogaeth ariannol uniongyrchol yn eithrio'r polisi ardrethi annomestig, gofynnwyd cwestiynau tebyg gennym yn yr ymgynghoriad ar ddyfodol Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn 2017. Roedd cefnogaeth i dargedu rhyddhad ardrethi ar gyfer sectorau fel ynni adnewyddadwy, twristiaeth, tafarndai a busnesau mewn cymunedau gwledig. Rydym wedi trafod sut rydym yn darparu rhyddhad ardrethi i eiddo gofal plant; sector blaenoriaeth a amlinellir yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi*.

45. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried a ddylid targedu rhyddhad ardrethi at dalwyr ardrethi sy'n cefnogi amcanion ehangach y Llywodraeth, megis y rhai yn y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* neu sy'n cynnal gweithgareddau nad ydynt yn achosi niwed cymdeithasol neu amgylcheddol. O dan gynllun o'r fath, gellid peidio â rhoi rhyddhad ardrethi i fusnesau sy'n gysylltiedig â benthyciadau diwrnod cyflog, salonau lliw haul a siopau bwyd cyflym.

[18] Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi
https://gov.wales/topics/businessandeconomy/economic-action-plan/?lang=cy

46. Wrth i waith fynd rhagddo ar roi'r *Cynllun Gweithredu ar yr Economi* ar waith, rydym yn adolygu cyfleoedd i sicrhau bod y polisi rhyddhad ardrethi'n cyd-fynd ag uchelgeisiau economaidd ehangach Cymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni bwyso a mesur y gwelliannau posibl yn y dyfodol yn erbyn creu cymhlethdod i awdurdodau lleol wrth weinyddu'r rhyddhad. Bydd hyn yn penderfynu a fydd unrhyw welliannau yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, fel cynlluniau ar wahân neu drwy gyllid grant penodol.

47. Mae ein gallu yn y dyfodol i dargedu rhyddhad ardrethi yn unol â blaenoriaethau ehangach yn dibynnu'n rhannol ar yr wybodaeth am fusnesau a gedwir gan awdurdodau lleol fel gweinyddwyr ardrethi annomestig a chan Lywodraeth Cymru fel llunwyr polisïau. Er enghraifft, nid yw awdurdodau lleol yn cadw gwybodaeth ar hyn o bryd am bryd mae busnesau newydd yn dod i fodolaeth, a yw busnesau'n talu cyflog byw (neu fesurau Gwaith Teg eraill), na gwybodaeth am gyflogeion. Bydd rhaid ystyried a yw'n briodol ac yn ymarferol i awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru gadw mwy o wybodaeth fanylach at ddibenion ardrethi annomestig.

48. Bydd rhaid ymgynghori ymhellach ynghylch yr amrywiaeth o syniadau sydd wedi'u cynnig i sicrhau bod y polisi ardrethi annomestig yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach a gofynion y *Cynllun Gweithredu ar yr Economi.*

**Gwella'r gwaith o weinyddu ardrethi annomestig a chydymffurfiaeth**

Ailbrisio ardrethi annomestig ar gyfer 2021

49. Mae ymarfer ailbrisio'n adolygiad achlysurol o werthoedd trethadwy pob eiddo annomestig yng Nghymru. Mae'n cael ei gynnal i sicrhau tegwch a manwl gywirdeb y system drwy ailddosbarthu'r atebolrwydd treth ymhlith trethdalwyr i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo ac i gofnodi unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i eiddo. Ar 11 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnal yr ymarfer ailbrisio nesaf ar gyfer ardrethi annomestig flwyddyn ynghynt, 2021 yn lle 2022. Mae'r cyhoeddiad hwn yn golygu y bydd y gwerthoedd trethadwy y seilir biliau ardrethi annomestig arnynt yn adlewyrchu amodau diweddaraf y farchnad ac yn galluogi trethdalwyr i gynllunio ymlaen ar gyfer newidiadau mewn atebolrwydd. Nid codi refeniw ychwanegol yw nod yr ymarfer.

50. Y corff annibynnol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n gyfrifol am gynnal ymarferiadau ailbrisio. Bydd yn llunio'r rhestr ardrethi nesaf i'w defnyddio gan awdurdodau lleol at ddibenion bilio a chasglu. Mae'r ymarfer wedi dechrau eisoes a bydd Rhestr Ardrethi newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae angen llawer o waith er mwyn cynnal ymarfer ailbrisio, gan Asiantaeth y

Swyddfa Brisio a hefyd awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r trethdalwyr eu hunain.

51. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn mabwysiadu cylch ailbrisio bob tair blynedd yn Lloegr ar ôl 2021. Yng ngoleuni'r rhaglen waith ehangach a amlinellir yn y papur diweddaru hwn, a'n huchelgeisiau i edrych ar ddulliau gweithredu amgen gyda threthi lleol yn y tymor hwy, mae'n rhy gynnar i ymrwymo i'r un cylch o dair blynedd. Trafodir hyn ymhellach ym mharagraff 67.

Mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig

52. Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynllunio mesurau newydd i dargedu ac atal osgoi ardrethi, ochr yn ochr â gwaith sy'n cael ei weithredu yn yr Alban[19], Lloegr[20] a Gogledd Iwerddon[21.] Er mwyn datblygu ein sylfaen o dystiolaeth, yn 2017, aethom ati i ofyn i awdurdodau lleol ddadansoddi systemau bilio i ganfod graddfa'r osgoi ardrethi yng Nghymru, o ran y raddfa hysbys a'r amheuaeth ynghylch hyn. Ar sail yr ymarfer hwnnw, rydym yn credu bod osgoi'n dod i gyfanswm o 1% i 2% o leiaf o'r cyfanswm - neu rhwng £10m ac £20m yn flynyddol, gyda rhai sylwebwyr yn awgrymu y gallai'r swm fod yn llawer uwch.

53. Mae'r holl gyllid a godir o ardrethi annomestig yn cael ei roi gyda'i gilydd a'i neilltuo i awdurdodau lleol i helpu gyda chyllido gwasanaethau lleol. Felly mae unrhyw osgoi'n arwain at golli'r cyllid sydd ar gael i'r gwasanaethau hynny. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn cadarnhau'r dulliau osgoi a amheuir ac yn cefnogi adolygiadau amrywiol a gynhelir gan weinyddiaethau eraill. Y rhain yn bennaf oedd peidio â rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau; meddiannaeth artiffisial mewn eiddo gwag i hawlio cylchoedd o ryddhad; 'elusennau' ffug neu segur yn meddiannu eiddo anaddas neu wag a masnachu ffenics neu gamddefnyddio'r gyfraith ansolfedd.

54. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad[22] rhwng misoedd Ebrill a Mehefin 2018 ar gyfres helaeth o fesurau i sicrhau bod y cyfleoedd ar gyfer y rhai sy'n dymuno osgoi cyfrannu at gost gwasanaethau lleol yn cael eu lleihau. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

---

[19] Adroddiad Adolygiad Barclay o Ardrethi Annomestig, Awst 2017.
https://www.gov.scot/Resource/0052/00523643.pdf

[20] Papur trafod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Thrysorlys EM, Rhagfyr 2014, a chrynodeb o'r ymatebion, Gorffennaf 2015.
https://www.gov.uk/government/consultations/business-rates-avoidance-discussion-paper#history

[21] Adolygiad o system ardrethi annomestig Gogledd Iwerddon, Hydref 2015:
https://www.finance-ni.gov.uk/sites/default/files/consultations/dfp/Review%20of%20Non-Domestic%20Rating%20System%20-%20Consultation%20Paper%20-%201%20December.pdf

[22] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben fis Mehefin 2018.
https://beta.llyw.cymru/mynd-ir-afael-ag-achosion-o-osgoi-ardrethi-annomestig-yng-nghymru

- Pennu dyletswydd i drethdalwyr roi gwybod am newid yn eu hamgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu hatebolrwydd treth;
- Pwerau i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth gan drethdalwyr a thrydydd partïon sydd â diddordeb;
- Pwerau i awdurdodau lleol fynd i mewn i eiddo annomestig a'i archwilio i ddilysu gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo gyda bilio a chasglu;
- Newidiadau i drefniadau rhyddhad eiddo gwag;
- Gofyn o bosibl i awdurdodau lleol gyhoeddi rhestr o drethdalwyr sy'n derbyn rhyddhad i gynorthwyo gyda thryloywder;
- Lleihau'r camddefnydd o ryddhad elusennol i sicrhau mai dim ond elusennau didwyll sy'n cael cefnogaeth;
- Ystyriaeth yn y dyfodol i Reol Gyffredinol ar Atal Osgoi ar gyfer trethi lleol yng Nghymru (gan nodi bod gan Lywodraeth Cymru reolau gwrth-osgoi cyffredinol a thargededig ar gyfer treth trafod tir);
- Gwella'r cydweithredu rhwng sefydliadau, rhannu arferion gorau ymhlith awdurdodau lleol a gwella ein canllawiau i drethdalwyr.

55. Bydd rhai o'r cynigion yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd a byddant yn cael eu cynnwys yn y bil arfaethedig, Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019 sydd i'w gyflwyno ym mis Chwefror 2019. Mae cynigion eraill yn gofyn am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth eilaidd neu weithio gydag asiantaethau perthnasol i wella arferion. Gan na fydd y mesurau y bwriedig eu cynnwys mewn Bil Llywodraeth Leol yn cael eu rhoi ar waith tan 2020 ar y cynharaf, a'n bod eisiau rhoi digon o amser i drethdalwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill baratoi ar gyfer y newidiadau, rydym yn ystyried gweithredu'r holl newidiadau gyda'i gilydd ar 1 Ebrill 2021. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd â chyflwyno rhestr ardrethi newydd yn dilyn yr ailbrisiad nesaf.

56. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid gyfres o fesurau i fynd i'r afael ag osgoi trethi ar 16 Hydref 2018[23]. Ni fydd modd datblygu'r pecyn o fesurau a amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet heb gyfraniad a chefnogaeth y gymuned fusnes, y mae mwyafrif ei busnesau'n talu eu hardrethi dyledus. Wrth i ni ddatblygu manylion y cynigion yn 2019 byddwn yn parhau i gydweithio â threthdalwyr, cynrychiolwyr diwydiant, awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, y Comisiwn Elusennau ac adrannau perthnasol Llywodraeth y DU.

[23] Mynd i'r afael â thwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig yng Nghymru
https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/tacklingfraudandavoidancendrwales/?skip=1&lang=cy

Diwygio apeliadau ardrethi annomestig

57. Yn gynharach eleni aethom ati i ymgynghori[24] ar ffyrdd o wella'r system apeliadau ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru. Aethom ati i ofyn am farn ar bob agwedd ar y fframwaith presennol gan roi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar nifer o newidiadau arfaethedig. Mae'r farn a'r dystiolaeth a gasglwyd yn sail i newidiadau deddfwriaethol a gweinyddol posibl yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda threthdalwyr, Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru i edrych yn fanylach ar oblygiadau posibl unrhyw newidiadau. Ein hamcan wrth wneud hynny o hyd yw creu fframwaith apeliadau sy'n fwy effeithlon ac effeithiol heb roi baich diangen ar drethdalwyr.

[24] Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, a ddaeth i ben fis Ionawr 2018. https://beta.llyw.cymru/diwygior-system-apelio-ar-gyfer-ardrethi-annomestig-yng-nghymru

## Diwygiadau tymor hir

58. Mae’r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at edrych yn ymarferol ac yn gymhwysol ar wahanol ddulliau o weithredu gyda chyllid llywodraeth leol. Byddai cyflawni diwygiadau sylfaenol yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd sylweddol a byddai angen eu gweithredu dros fwy nag un tymor yn y Cynulliad.

**Edrych ar wahanol ddulliau o weithredu gyda threthi lleol**

59. Disgrifiodd ein diweddariad blaenorol ym mis Hydref 2017 esblygiad sgwrs oedd wedi bod yn digwydd yng Nghymru, yn y DU ac ym mhob cwr o’r byd am fecanweithiau cyllido ar gyfer gwasanaethau lleol ac, yn benodol, sut mae trethi lleol yn cael eu cynllunio a’u codi. Aethom ati i ddatgan ein bwriad i symud y sgwrs hon yn ei blaen drwy edrych ar wahanol ddulliau o godi trethi lleol mewn ffordd ymarferol a chymhwysol, i asesu a fyddai unrhyw wir fanteision i Gymru.

60. Yn ystod 2018 mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiadau llenyddiaeth a thrafodaethau gyda’r Gweithgor Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol am drethi gwerth tir, trethi incwm lleol a fersiynau wedi’u moderneiddio o'r trethi seiliedig ar eiddo presennol. Mae’r Gweithgor yn cynnwys arbenigedd gan economegwyr, arbenigwyr prisio, data ac ystadegau, swyddogion llywodraeth leol, arbenigwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus a’r rhai â phersbectif trethdalwyr, tegwch a chydraddoldeb.

<u>Themâu ar gyfer asesiadau ymarferol a chymhwysol</u>

61. Aeth y Gweithgor ati i ystyried beth fyddai ein ‘themâu ar gyfer asesu’ ar gyfer y dulliau gweithredu eraill gyda threthi lleol:

- **Pobl a threthdalwyr** – A oes modd i ddull gwahanol o weithredu ddangos atebolrwydd lleol; pa mor dda fyddai’r cyhoedd yn derbyn newid; a yw’n bodloni canlyniadau polisi ehangach; beth yw’r cyswllt rhwng y dull o weithredu yn y dyfodol a’r trethi eraill y bydd pobl a busnesau’n parhau i'w talu; a fyddai trethdalwyr yn cydnabod dull arall o weithredu fel treth leol yn hytrach na chenedlaethol; beth yw effaith gymdeithasol dull arall o weithredu.

- **Cynaliadwyedd gwasanaethau lleol** – A yw dull gwahanol o weithredu yn codi'r un refeniw, neu lai neu fwy o refeniw, ar gyfer gwasanaethau lleol; beth yw graddfa'r hydwythedd yn y dyfodol; pwy ddylai fod yn gyfrifol am yr atebolrwydd trethi, er enghraifft perchnogion, meddianwyr neu rywun arall; beth yw effaith economaidd ehangach dull arall o weithredu; beth yw’r lefel

sefydlogrwydd orau ar gyfer cynllun treth newydd - er enghraifft, ymatebol ond nid yn agored i effeithiau cylchoedd neu siociau economaidd.

- **Tegwch** – A fyddai dull arall o weithredu'n fwy neu'n llai cynyddol na'r trefniadau presennol, gan sicrhau bod y rhai sy'n gallu'n cyfrannu mwy na'r rhai nad ydynt yn gallu; pwy fyddai'r enillwyr a'r collwyr tebygol o gymharu â'r dull presennol o weithredu; beth fyddai polisi Llywodraeth Cymru ar ryddhad ac eithriad er mwyn darparu cefnogaeth ble mae ei hangen; beth fyddai'r gofyniad yn y dyfodol ar gyfer ailddosbarthu'r refeniw a godir ymhlith ardaloedd o Gymru er mwyn sicrhau tegwch.

- **Gweithredu ymarferol** – Sut byddem yn mynd ati i gofrestru a phrisio'r endid sydd i gael ei drethu (i ddechrau ac wedyn yn achlysurol); pa gostau ymlaen llaw fyddai'n codi wrth ddatblygu'r seilwaith a'r gallu gofynnol; a fyddai'r casglu a'r gweinyddu'n fwy neu'n llai effeithlon na'r trefniadau presennol, a yw'r dull o weithredu yn y dyfodol yn fforddiadwy i'w gynnal; a yw'r dull arall o weithredu'n annog ymddygiad niweidiol nad yw'n bodoli ar hyn o bryd; beth yw'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu a gweithredu dull arall o weithredu, a oes unrhyw gyfyngiadau cyfansoddiadol neu ddatganoli.

62. Cynigiodd y gweithgor nifer o feysydd ar gyfer ymchwil technegol yn ystod 2019. Roedd yn gyffredinol o'r farn bod y llenyddiaeth yn darparu rhesymau cysyniadol da dros newid yr ardrethi annomestig am dreth leol yn seiliedig ar werth tir, ac y byddai hon yn sail synhwyrol i'w hystyried yng Nghymru. Byddai'n rhaid asesu effaith ei chyflwyno ar brisiau tir ac ar addasu'r farchnad eiddo yn y dyfodol. Efallai na fydd codi trethi lleol yn unol â gwerth y tir yn dileu'r angen am fecanwaith oedd yn ailddosbarthu'r adnoddau a godwyd ymhlith ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru.

63. Er mwyn datblygu treth gwerth tir, ystyriodd y gweithgor y byddai'n ofynnol cael cofrestr gadarn a manwl gywir o dir yng Nghymru mae'n debyg. Mae Cofrestrfa Tir EM yn amcangyfrif bod hyd at 15% o'r tir yng Nghymru a Lloegr heb ei gofrestru ond mae'n gobeithio sicrhau cofrestru cynhwysfawr erbyn 2030[25]. Byddai'n bwysig edrych yn fanylach ar raddfa a nodweddion tir heb ei gofrestru yng Nghymru. Ystyriodd y gweithgor a allai symud o un dull i'r llall fod yn broses raddol. Byddai hyn yn gofyn am allu gwahanu gwerth tir oddi wrth werth eiddo fel bod pob elfen yn gallu cael ei newid yn raddol.

64. Mewn perthynas â threth incwm leol, ystyriwyd bod y cysyniad hwn yn fwy addas yn y cyd-destun domestig. Ystyriodd y gweithgor y byddai risgiau refeniw

[25] Blog Cofrestrfa Tir EM 'Chwilio am dir heb ei gofrestru', Chwefror 2018. https://hmlandregistry.blog.gov.uk/2018/02/05/search-owner-unregistered-land/

ac anwadalrwydd uwch a gall yr effeithiau hyn fod yn amlycach na dulliau eraill o drethu lleol, er enghraifft, yn ystod cyfnodau o ddirwasgiad a chyflogaeth is. Fodd bynnag, mae rhai o wledydd Llychlyn yn gweinyddu ffurf ar dreth incwm leol yn effeithiol a byddai hwn yn faes ffocws i ymchwil pellach.

65. Hefyd byddai treth incwm leol i gymryd lle treth gyngor yn dangos lefel uwch o symudedd. Canfu Comisiwn Holtham[26] bod 50% o boblogaeth Cymru yn 2008 yn byw o fewn 25 milltir i'r ffin â Lloegr, o gymharu â dim ond 3.5% o boblogaeth yr Alban oedd yn byw o fewn 25 milltir i'r ffin â Lloegr. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau am symudedd yng Nghymru, pe cynllunnid y byddai angen i dreth incwm leol gynnwys ffiniau 22 awdurdod lleol. Er bod gan dreth incwm leol botensial i fod yn fwy cynyddol na dulliau eraill o weithredu drwy ymwneud mwy yn uniongyrchol ag incwm gwario aelwydydd, mae'n debygol y byddai pobl sy'n ennill incwm uchel iawn hefyd yn hynod symudol pe bai'r gwahaniaeth mewn cyfraddau treth lleol yn rhy fawr. Gallai'r risg hon olygu bod sefydlogrwydd refeniw'n cael ei ffafrio ar draul graddoliad. Byddai'r costau gweinyddu yn ystyriaeth bwysig hefyd.

66. Gofynnodd Llywodraeth yr Alban i Gomisiwn Tir yr Alban[27] asesu'r potensial ar gyfer trethi seiliedig ar werth tir yn yr Alban. Rydym wedi cyfarfod Comisiwn Tir yr Alban er mwyn deall sut mae'n rhoi sylw i'r cwestiwn hwn. Mae gwaith cychwynnol y Comisiwn yn ystyried potensial trethiant gwerth tir i gyfrannu at ddefnydd mwy cynhyrchiol, atebol ac amrywiol o dir. Byddwn yn parhau i gyfarfod y Comisiwn yn achlysurol i ddysgu am ei ganfyddiadau a'i argymhellion.

Amserlen ar gyfer gwaith technegol

67. Mae'r trafodaethau eleni wedi helpu fel sail i gamau'r rhaglen waith ar gyfer 2019, lle bydd y ffocws ar waith empirig a thechnegol er mwyn asesu maint yr heriau ymarferol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal cyfres o ddarnau ymchwil ar wahân ond cysylltiedig drwy gydol 2019:

- Byddwn yn edrych ar ymarferoldeb treth gwerth tir fel opsiwn posibl i gymryd lle ardrethi annomestig. Byddai hwn yn gam cychwynnol gyda'r nod o asesu treth gwerth tir ymhellach i gymryd lle treth gyngor;

- Byddwn yn cynnal ymarfer ailbrisio ac ailfandio damcaniaethol ar gyfer treth gyngor i asesu a yw moderneiddio treth gyngor yn opsiwn ymarferol i'w gymharu yn erbyn unrhyw ddulliau gweithredu eraill;

[26] Adroddiad Terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru ('Comisiwn Holtham'), Gorffennaf 2010. https://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/framework/reports/fairness/?lang=cy
[27] Gwefan Comisiwn Tir yr Alban https://landcommission.gov.scot/

- Byddwn yn edrych ar ffyrdd gwell ac amlach o brisio eiddo annomestig oddi mewn i'r fframwaith presennol ar gyfer ardrethi annomestig, os daw Llywodraeth Cymru i'r casgliad nad yw ffurfiau eraill ar dreth yn ymarferol; a

- Byddwn yn edrych ar ymarferoldeb treth incwm leol neu dreth trosiant leol fel dulliau gweithredu posibl yn lle trethiant domestig ac annomestig.

68. Bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun gwaith polisi treth Llywodraeth Cymru, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ddechrau 2019.

69. Nid oes ymchwil pellach i dreth incwm leol wedi'i gwmpasu eto ond caiff ei ystyried yn fuan. Bydd canfyddiadau'r gwaith technegol yn cael eu casglu at ei gilydd yn gynnar yn 2020. Bydd Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r posibiliadau cyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2021.

70. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fod yn glir bod rhaid i unrhyw ddull amgen o godi trethi lleol godi cyllid ar gyfer llywodraeth leol mewn ffordd sefydlog a disgwyliedig, gan mai dyma'r sail ddeddfwriaethol a chyfansoddiadol ar gyfer bodolaeth y trethi hyn oddi mewn i'r setliad datganoledig cyfredol. Pan fydd canlyniadau'r gwaith technegol ar gael, byddwn yn eu defnyddio i ystyried ymhellach sut dylai elfennau eraill y system gyllid ar gyfer llywodraeth leol gael eu newid, fel cyllid grant a'r cydbwysedd rhwng refeniw a godir yn lleol a refeniw a ddarperir yn ganolog.

71. Yn Llywodraeth Cymru bydd angen ystyriaeth ehangach i ddatblygu treth gwerth tir leol ochr yn ochr â'n cynigion eraill i ddatblygu Treth Tir Gwag genedlaethol ar safleoedd segur. Er mai nod y cynigion hyn yw cyflawni amcan polisi gwahanol (i helpu i ddiwallu anghenion tai a datblygu drwy sicrhau bod tir ar gael at ddefnydd cynhyrchiol yn hytrach na chodi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol), bydd ystyriaethau cyffredin a rhyng-ddibyniaeth. Byddwn am ystyried y materion hyn yn fanylach dros y flwyddyn i ddod, ac ochr yn ochr â'r dadansoddiad a gyflwynir mewn amrywiol adroddiad academaidd, fel adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar risgiau a chyfleoedd ar gyfer sylfaen dreth Cymru[28].

72. Drwy gydol 2019, rydym yn bwriadu datblygu trafodaethau manylach a mwy ffurfiol gyda sefydliadau perthnasol fel Cofrestrfa Tir EM ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sydd â barn efallai am ddulliau eraill o weithredu ac sydd â gwybodaeth ymarferol i'w rhannu o bosibl.

---

[28] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2018
https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/y-sylfaen-drethu-gymreig-risgiau-a-chyfleoedd-ar-ol-datganoli-cyllidol/